

Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Rheolwr Gwasanaethau Technoleg

## Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH
ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.



# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

- **Aberystwyth, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**





# Teitl y swydd: Rheolwr Gwasanaethau Technoleg

**Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth? Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi.**

**Rydym yn chwilio am Rheolwr Gwasanaethau Technoleg i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.**

**Cyflog:** PS5 £48,226 - £50,269

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:**– Conwy

**Dyddiad cau:** 23/02/2026

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

- Mae gan ACGChC gyfle cyffrous i ymgeisydd brwdfrydig ymuno â'n tîm Technoleg deinamig.
- Mae'r swydd barhaol hon yn addas iawn i unigolyn sy'n awyddus i ddatblygu ei yrfa mewn peirianneg twnneli.
- Rheoli gofynion Gwasanaeth Twneli a Thechnoleg yr Asiantaeth yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru i fodloni dyletswyddau o dan Adran 41 Dyletswydd i gynnal priffyrdd sydd i'w cynnal ar gost cyhoeddus ac Adran 58 Amddiffyniad arbennig mewn achos yn erbyn awdurdod priffyrdd am iawndal am beidio ag atgyweirio priffordd o Ddeddf Priffyrdd 1980.
- Rheoli'r gwaith cynnal a chadw, archwilio a chywiro diffygion mewn modd amserol i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â Rheoliadau Diogelwch Twneli Ffyrdd 2007 (fel y'u diwygiwyd yn 2009) a Gofynion Isafswm Gweithredu Twneli yr A55.
- Rheoli'r gwaith o ddarparu rhaglen rheoli Asedau Twneli a Thechnoleg Gogledd a Chanolbarth Cymru yn ddiogel i gyd-fynd â gofynion deddfwriaethol, prosesau Iechyd a Diogelwch yr Asiantaeth a gweithredu fel Rheolwr Prif Gontractwyr ar gyfer gwaith y tu allan i'r ardal cau twnnel.
- Cyfrannu at ddatblygiad strategaethau LlC, gofynion Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru (WGTRMM), Systemau Rheoli Busnes yr Asiantaeth (BMS) a sicrhau bod Gwasanaeth Archwilio'r Asiantaeth yn perfformio yn unol â gweithdrefnau'r BMS ac y gellir archwilio'r gwasanaeth yn erbyn gweithdrefnau'r BMS.




Mae'r swydd yn cynnwys y cyfrifoldebau ychwanegol canlynol ac mae'r Swydd Disgrifiad yn rhoi cefndir mwy cynhwysfawr i chi o'r swydd):

- Cyfrifoldeb cyffredinol am y staff, yr offer a'r cerbydau sy'n cynnwys y Timau Gwasanaeth Technoleg amlddisgyblaethol mewnol.

- Rheoli darparwyr gwasanaethau allanol (Awdurdodau Partner, ymgynghorwyr a chontractwyr sector preifat).

- Rheoli data archwilio twneli a thechnoleg o fewn cronfeydd data rheoli asedau LlC.

- Rheoli cyfleusterau depo dydd i ddydd.

- Rheoli system rheoli storfeydd LlC o ddydd i ddydd.

- Arwain ar **brosesau** Technoleg yr Asiantaeth **(gan gynnwys rhai arbenigol)** yn gysylltiedig â:

  - Systemau Peirianneg Diogelwch Oes Twnnel
  - Systemau Trafnidiaeth Deallus (ITS)
  - Systemau Foltedd Uchel
  - Teledu Cylch Cyfyng
  - Systemau Pŵer Wrth Gefn mewn Argyfwng
  - Systemau Rheoli Twnnel
  - Systemau Rheoli Pont Britannia
  - Cydymffurfiaeth amgylcheddol
  - Arwyddion Negeseuon Newidiol
  - Signalau traffig ffordd
  - Systemau draenio (Gorsafoedd pwmpio)
  - Ystâd feddal
  - Systemau goleuadau twnnel
  - Isadeiledd systemau trafnidiaeth deallus
  - Mân strwythurau
  - Eraill fel y cytunir â Thîm Rheoli'r Asiantaeth a Llywodraeth Cymru.

- Cymhwyso egwyddorion system rheoli prosiect PRINCE2.

- Cydgysylltu â'r Awdurdod Partner a darparwyr sector preifat o ran prosiectau, gan gynnwys darparu Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

- Cydgysylltu â'r Uned Cyflwyno a Pharchnado yn ymwneud â rheoli perfformiad prosiect.




# Manylion Person

**Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.**

## Meini prawf penodol i'r swydd

### Hanfodol

Rydym yn chwilio am rywun sydd â'r gallu i arwain tîm aml-ddisgyblaethol, sydd yn gallu gweithio'n ddiogel dan bwysau ac sydd â'r gallu i ddangos mentergarwch a chreadigrwydd. Barodrwydd i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain o fewn paramedrau wedi'u diffinio, gradd uchel o hunan-fywiogrwydd a ymroddiad, ac sydd â sgiliau rhyngbersonol datblygedig yn dda.

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

### Hanfodol

Chwilio am berson sydd a HNC mewn Prif Bwnc Peirianneg a Cynllun Hyfforddiant Diogelwch Rheoli Safle (5 diwrnod).

## Profiad perthnasol

### Hanfodol

Rydym yn chwilio am rywun sydd â phrofiad mewn Arolygu a Chynnal a Chadw asedau technoleg priffyrdd a systemau twnelau ffyrdd. Profiad mewn defnyddio systemau rheoli asedau a chyllid yn weithredol, yn ogystal â gwybodaeth am ddefnyddio amrywiaeth o raglenni caledwedd TG. Dealltwriaeth o ddatblygu a defnyddio systemau rheoli asedau, a chael profiad o arwain a rheoli tîm.

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

### Hanfodol

Chwilio am rywun sydd â gwybodaeth am ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch ac yn gweithredu technegau rheoli risg.
Y gallu i ddangos sgiliau rhyngbersonol o'r radd uchaf ac i ysgogi tîm yn ogystal â'r gallu i reoli newid ac i hyrwyddo datblygiadau newydd.
Rydym hefyd yn chwilio am rywun sydd â gwybodaeth dda yn ymarferol o becynnau Microsoft neu gyfwerth, sydd â sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig da, ac sydd â thrwydded yrru gyfredol a dilys.

## Gofynion ieithyddol

### Hanfodol

Mae'r gallu i siarad Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a

- 29.5 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio’n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.

- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol

- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i’r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!

- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.